OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2012 No. 322

# Rheoliadau Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru 2012

## RHAN B

## APELAU ANGHENION ADDYSGOL ARBENNIG A HAWLIADAU ANABLEDD

### Paratoi achos cyn y gwrandawiad

***Pwerau rheoli'r Tribiwnlys***

**Methiant i gydymffurfio â chyfarwyddiadau**

**36.**—(1) Os na fydd parti wedi cydymffurfio â chyfarwyddyd a roddir o dan y Rheoliadau hyn o fewn yr amser a bennir yn y cyfarwyddyd, caiff y Llywydd neu'r panel tribiwnlys—

(a) os yr apelydd neu'r hawlydd yw'r parti diffygiol, wrthod yr apêl neu'r hawliad heb wrandawiad;

(b) os yr awdurdod lleol neu'r corff cyfrifol, yw'r parti diffygiol, benderfynu'r apêl neu'r hawliad heb wrandawiad;

(c) cynnal gwrandawiad—

(i) heb hysbysu'r parti diffygiol, lle na fydd y parti diffygiol yn bresennol nac yn cael ei gynrychioli; neu

(ii) pan fo'r partïon wedi eu hysbysu o'r gwrandawiad yn unol â rheoliad 41(1), a rhoi cyfarwyddyd nad oes hawl gan y parti diffygiol, nac unrhyw berson sy'n bwriadu cynrychioli'r parti hwnnw neu roi tystiolaeth ar ei ran, i fod yn bresennol yn y gwrandawiad.

(2) Yn y rheoliad hwn ystyr "y parti diffygiol" ("*the party in default*") yw'r parti a fethodd â chydymffurfio â'r cyfarwyddyd.